



# Rheoli clymog Japan

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth gyffredinol am glymog Japan **yma**. Mae'r daflen hon yn esbonio'r hyn y dylai grŵp cymunedol neu wirfoddol ei ystyried wrth feddwl am brosiect i reoli clymog Japan ar dir y mae'n gysylltiedig ag ef.

## Pwy sy'n gyfrifol?

Y tîrffeddiannwr sydd bron bob amser yn gyfrifol am glymog Japan oni bai bod y lesddeiliad yn gyfrifol am reoli'r tir. Os na allwch ddod o hyd i bwy sy'n berchen ar y tir o dan sylw, gallwch gysylltu â'r **Gofrestrfa Tir**.

Nid oes rhaid i dirffeddiannwr reoli clymog Japan ar eu tir ond mae plannu neu ganiatáu i'r chwyn dyfu yn y gwyllt yn drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Ymhlith y camau sy'n debygol o achosi iddo ledaenu yw torri, strimio, ffustio a chael gwared ar ddeunydd sydd wedi'i heintio â chlymog Japan megis torion glaswellt a phridd. Os yw clymog Japan yn peri pryderon, efallai y bydd ateboliaeth sifil. Mae gan awdurdodau lleol a'r heddlu'r pŵer i gyhoeddi hysbysiadau gwarchod y gymuned o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 lle mae unigolion yn ymddwyn yn afresymol ac yn gyson neu'n parhau i ymddwyn mewn modd sy'n cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai hynny yn yr ardal leol. Mae gwybodaeth bellach ar gael **yma**.

## Pam rydych yn dymuno rheoli'r clymog Japan?

Gall clymog Japan effeithio ar safle mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- **Mynediad** – Gall y chwynnyn rwystro mynediad i safleoedd a glannau afonydd.
- **Cystadleuaeth** – Mae canopi trwchus y chwynnyn a thyfiant cyflym yn cywasgu llystyfiant brodorol, gan leihau amrywiaeth rhywogaethau mewn fflora a ffawna.
- **Erydu a llifogydd** – Yn ystod y gaeaf, mae diffyg tyfiant ar y tir unwaith mae'r chwynnyn wedi marw'n ôl yn cynyddu'r risg o'r pridd yn erydu. Gall y pridd sydd wedi erydu atal afonydd a nentydd, gan felly gynyddu'r risg o lifogydd.
- **Eiddo** – Gall presenoldeb y chwynnyn effeithio ar werthoedd eiddo a'r gallu i gael morgais.
- **Erlyniad** – Os byddwch yn achosi i'r chwynnyn ledaenu o'ch eiddo, gallech fod yn agored i gael eich erlyn.
- **Cysgodi** – Gall y chwynnyn gysgodi nentydd, afonydd a llynnoedd ac achosi niwed i ansawdd y dŵr a physgota.
- **Niwed strwythurol** – Gall y chwynnyn dyfu trwy graciau mewn ffyrdd, llwybrau a waliau, a difrodi adeileddau.

## Faint sy'n bresennol?

Gall plâu clymog Japan amrywio o goesynnau unigol neu grwpiau bach i goesynnau sefydledig mawr. Mae'r rhisomau (gwreiddiau) yn gallu ymestyn am nifer o fetrau o'r planhigyn gwreiddiol a chynhyrchu clystyrau newydd. Gall ledaenu'n gyflym mewn tir sydd wedi'i droi. Mae modd ei reoli'n haws pan fo'r coesynnau'n fach ac nid yw'r rhisomau wedi'u sefydlu'n llawn.



## Beth yw'r risg ohono'n lledaenu?

Os na thrinnir rhisomau clymog Japan byddant yn lledaenu'n gyflym yn naturiol ac oherwydd gweithgarwch dynol (symud pridd, cloddio, torri, strimio, ayyb.) neu drwy lif dŵr trwm a llifogydd pan fydd y chwynnyn yn bresennol ar lannau cwrs dŵr. Gall darnau bach iawn o goesynnau neu risomau achosi planhigion newydd i dyfu. Cymerwch gamau i sicrhau na fydd y clymog yn lledaenu os byddwch yn defnyddio rhaglen reoli heb gemegau.

## Sut rydych yn mynd i'w reoli?

### Beth yw'r nod gyffredinol o reoli ar y safle?

Mae'n rhaid i chi benderfynu a oes angen rheoli'r chwynnyn, h.y., lleihau'r pla i'w atal rhag tyfu neu ledaenu ymhellach, neu a ddylech roi cynnig ar raglen hir dymor i'w waredu'n llwyr. Gall triniaeth gymryd sawl blwyddyn i gael effaith, felly mae'n bwysig bod pawb sy'n rhan o'r rhaglen yn ymwybodol o'r amserlenni.

### Aseswch y safle ac ystyriwch yr opsiynau rheoli sydd ar gael

Ar y safle, lluniwch fap sy'n dangos maint pla'r clymog Japan, mesurwch faint pob clwstwr ac amlygwch y lleoliad a'r math o unrhyw gwrs dŵr sy'n bresennol. Fel rheol gyffredinol, mae arwynebedd pla'r rhisom o dan ddaear yn 7m yn llorweddol o ymyl y tyfiant uwchben y ddaear. Defnyddiwch y map hwn fel sail i'ch cynllun rheoli ac i hysbysu ymwelwyr i'r safle.

Yr opsiynau rheoli yw

- **dulliau cemegol** megis defnyddio chwynladdwr fel chwistrell ddeiliol, sychwr chwyn neu ar gyfer chwistrellu coesyn. Mae dulliau cemegol fel arfer yn well, gan eu bod yn atal y chwynnyn rhag tyfu ac yn lleihau'r risg o ledaenu esgeulus a'r angen i waredu planhigion a rhisomau. Mae'n rhaid i unigolyn sydd â chymhwyster priodol ymgymryd â neu oruchwylio'r rheoli cemegol.
- **dulliau heb ddefnyddio cemegion** megis pori, tynnu, torri neu balu allan. Mae'r rhain fel arfer yn addas ar gyfer rheoli poblogaethau isel mewn ardaloedd bach. Mae'n rhaid i unrhyw ddarnau o blanhigion a dynnwyd o'r ddaear gael eu gwaredu'n briodol i osgoi ymlediad pellach. Gall methu â gwneud hynny arwain at erlyniad.

## Amseru ar gyfer yr opsiynau triniaeth gwahanol

	Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
<b>Camau tyfiant</b>												
Blagur yn ymddangos												
Coesynnau'n tyfu												
Blodeuo												
<b>Mesurau rheoli</b>												
<b>Heb fod yn gemegol</b>												
Tynnu, torri												
Pori												
Palu												
<b>Cemegol</b>												
Chwistrell ddeiliol												
Sychwr chwyn												
Chwistrell coesyn												

Efallai y bydd angen ailadrodd dulliau rheoli dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Bydd monitro pellach y tu hwnt i'r cyfnod hwn yn helpu i nodi a yw'r broses o ddadwreiddio wedi bod yn llwyddiannus.

## A oes gan eich grŵp fynediad i'r sgiliau a'r offer priodol?

### Defnyddio chwynladdwyr

Mae'r **Cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion** yn rhoi arweiniad i helpu pobl sy'n defnyddio chwynladdwyr i ddilyn y gyfraith.

Mae'n rhaid i bob un sy'n defnyddio chwynladdwyr fod wedi'u hyfforddi'n briodol. I brynu a defnyddio chwynladdwyr proffesiynol mae'n rhaid eich bod wedi ennill tystysgrif hyfforddi benodol a gydnabyddir, megis Dyfarniad i Ddefnyddio Chwynladdwyr yn Ddiogel Lefel 2, sy'n addas i'r gwaith a'r math o offer a ddefnyddir. Y cymhwyster sylfaenol sydd ei angen ar unrhyw un sy'n defnyddio chwynladdwyr yw PA1 (0216-49). Mae unrhyw fodylau ychwanegol sydd eu hangen yn dibynnu ar y math o daenwr a ddefnyddir a'r sefyllfa lle defnyddir y chwynladdwr. Y mwyaf tebygol yw defnyddio chwynladdwyr yn ddiogel gan ddefnyddio offer llaw, PA6 (0216-54), a'r modylau canlynol:

Math o daenwr	Defnyddio chwynladdwyr	Cymhwyster
Chwistrellau hydrolog neu atomeiddwr tro	I ar dir	PA6A (151)
Chwistrell hydrolog neu atomeiddwr tro	I neu wrth ddŵr	PA6AW (152)
Offer chwistrellu chwynladdwr	Drwy chwistrell coesyn	PA6INJ (156)

### Offer

Gellir prynu dillad diogelwch personol addas i'w defnyddio wrth ddefnyddio chwynladdwyr (gorchuddwisg, fisor, menig, gorchudd wyneb ac esgidiau glaw) ar-lein ac o ganolfannau gardd, siopau nwyddau cefn gwlad, ayyb.

Dylai defnyddwyr hefyd ystyried y math o daenwr, er enghraifft, taenwyr rheoli defnyddwyr sy'n osgoi'r angen i gymysgu cemegion a chael gwared ar gymysgedd ddiangen, neu, ar gyfer ardaloedd bach iawn, chwynladdwyr pwmpio a mynd sy'n barod i'w defnyddio o siopau DIY a chanolfannau gardd.

### *Storio chwynladdwyr*

Storiwch chwynladdwyr yn eu cynhwysydd gwreiddiol mewn man diogel allan o gyrraedd plant ac anifeiliaid anwes, a sicrhewch y bydd unrhyw orlifo'n cael ei reoli. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn Adran 4 y [Cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion](#).

### *Gwaredu*

Cymysgwch yr union faint o chwynladdwr sydd ei angen arnoch yn unig i leihau gwastraff. Gellir defnyddio unrhyw chwynladdwr a golchion wedi'i gwanhau sydd dros ben i'r ardal wedi'i thrin neu heb ei thrin o fewn telerau cymeradwyaeth y cynnyrch. Peidiwch fyth ag arllwys chwynladdwyr i mewn i ddraen, tŷ bach, sinc neu gwrs dŵr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn Adran 5 y [Cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion](#).

### **Rheoli heb gemegion**

#### *Offer*

Mae angen menig amddiffynnol, tocwyr, sisyrnau a secateurs ar gyfer rheoli clymog Japan heb gemegau. Gellir prynu'r rhain ar-lein neu o ganolfannau gardd, siopau nwyddau cefn gwlad, ayyb.

#### *Tynnu neu dorri*

Nod tynnu neu dorri yw gwanhau planhigion wrth dynnu'r coesynnau'n rheolaidd. Fodd bynnag, gall gymryd hyd at 10 mlynedd i'w reoli'n llawn. Peidiwch fyth â ffustio, torri neu ddefnyddio dulliau tebyg sy'n darnio'r coesyn a'r rhisomau.

Dylid torri planhigyn naill ai'n lân wrth fôn y coesyn neu'i dynnu i'w wahanu o'r rhisomau. Dylid gwneud hyn o leiaf bedair gwaith yn ystod y flwyddyn neu bob dwy i bedair wythnos yn ystod y tymor tyfu.

#### *Gwaredu*

Dylid cadw pob deunydd clymog Japan ar y safle mewn man sydd wedi'i ffensio i ffwrdd i atal aflonyddiad a lledaeniad.

Dylid gadael coesynnau sydd wedi'u torri i sychu ar arwynebedd difandwll megis gorchuddion plastig wedi'u diogelu rhag y gwynt. Gall y broses sychu gymryd hyd at chwe wythnos, gan ddibynnu ar y tywydd ac a yw'r pentwr wedi'i ddiogelu rhag y glaw. Unwaith i'r coesynnau'n droi'n frown tywyll, maent yn farw a gellir eu llosgi neu eu gadael i bydru.

Mae deunydd gwastraff y clymog Japan yn cael ei ystyried fel 'gwastraff a reolir' o dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, felly os yw'n cael ei symud o'r safle, mae'n rhaid iddo gael ei waredu ar [safle gwastraff trwyddedig addas](#). Os byddwch yn defnyddio cludwyr i symud y gwastraff hwn oddi ar y safle, mae'n rhaid i chi sicrhau eu bod yn [gludwyr gwastraff cofrestredig](#).

### **Defnyddio contractwyr arbenigol**

Os byddwch yn penderfynu defnyddio contractwr arbenigol, dylent fod yn

- ymarferwyr a ardystiwyd gan BASIS ar gyfer argymhell opsiynau rheoli cemegol priodol.
- defnyddwyr chwistrell y mae ganddynt y tystysgrifau penodedig priodol.



Mae contractwyr arbenigol ar gyfer trin clymog Japan fel arfer yn aelodau'r Invasive Non-Native Specialists Association ([www.innsa.org](http://www.innsa.org)) neu'r Property Care Association ([www.property-care.org](http://www.property-care.org)). Mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu i safonau llym sy'n cwmpasu'r holl ofynion cyfreithiol.

Mae contractwyr eraill yn cynnwys Amenity Assured Compliant Contractors y mae modd dod o hyd iddynt drwy [www.basis-reg.co.uk](http://www.basis-reg.co.uk) neu aelodau'r National Association of Agricultural Contractors, ([www.naac.co.uk](http://www.naac.co.uk)).

## Pa ganiatâd sydd ei angen o bosibl?

### Safleoedd a ddiogelir

Sicrhewch eich bod yn cael caniatâd perchennog y tir bob amser.

Os bydd y clymog Japan ar safle dynodedig, megis safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ardal arbennig wedi'i diogelu, neu ardal arbennig o gadwraeth, bydd angen caniatâd ysgrifenedig arnoch gan [Gyfoeth Naturiol Cymru](#) cyn y gellir cychwyn triniaeth.

### Defnyddio chwynladdwyr wrth gwrs dŵr

Mewn sefyllfaoedd mewn neu wrth ddŵr, gan gynnwys sianeli draeniad, nentydd, afonydd, pyllau dŵr, llynnoedd, cronfeydd dŵr, camlesi a ffosydd sych, mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru cyn defnyddio chwynladdwyr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth [yma](#).

## Materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol

### Bioggiogelwch

Gall clymog Japan ledu'n rhwydd drwy ddarnau bach o wraidd a choesyn. Mae bioggiogelwch da'n allweddol i atal hyn rhag digwydd ar yn ogystal ag oddi ar y safle.

- Sicrhewch fod esgidiau ac offer yn lân cyn cael mynediad i ac wrth adael safle.
- Defnyddiwch y cyfleusterau ar y safle i i lanhau esgidiau ac offer.
- Cadwch fynediad i'r lleiafswm posibl.

Mae mwy o wybodaeth ar gael [yma](#).



### Iechyd a diogelwch

Gall clystyrau dwys o glymog Japan guddio tir anwastad a pheryglon baglu. Gellir clirio planhigion marw yn ystod y gaeaf i wella mynediad a gwelediad.

Ceir y chwynnyn yn aml ar lannau cyrsiau dŵr a all fod yn serth ac yn llithrig.

Mae'n rhaid i chwynladdwyr gael eu defnyddio gan bersonél sydd wedi'u cymhwyso'n briodol ac yn ôl y cyfarwyddiadau ar y label.

### Ystyriaethau ar ôl triniaeth

Ar ôl triniaeth, monitrwch y safle bob blwyddyn yn y gwanwyn ac ailadroddwch y driniaeth os byddwch yn gweld tyfiant newydd. Bydd hau gwellt glas brodorol ar fannau heb dŵf yn helpu i leihau erydu'r pridd.

Gallwch atal plâu newydd wrth ddiogelu'r safle rhag tipio anghyfreithlon; sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir ar y safle'n lân ac nad yw'n dod neu'n mynd â darnau bach o goesyn neu risom; a sicrhau bod pob ymwelydd i'r safle'n gwisgo esgidiau nad oes pridd arnynt.

Gellir golchi darnau o goesyn neu risom i mewn i gyrsiau dŵr pan fydd lefelau'r dŵr yn uchel, felly chwiliwch am safleoedd posibl o bla i fyny'r afon a monitrwch yn drylwyr am bla.

Gallwch adrodd am bresenoldeb clymog Japan yn unol ag [arweiniad](#) gan non-native species secretariat PF.

## Dolenni defnyddiol

Llywodraeth Cymru [gwybodaeth am chwynladdwyr](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru [Clymog Japan Beth sydd angen i chi ei wybod](#)

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch [gwybodaeth am chwynladdwyr](#)

[National Association of Agricultural and Amenity Contractors](#) (NAAC)

[Amenity Assured](#) contractors

Non-Native Species Secretariat PF [Clymog Japan](#), *Fallopia japonica*, gwybodaeth am y rhywogaeth

## Cyllid

Cyfoeth Naturiol Cymru [Mae'r diweddaraf am gyllid](#) yn rhoi trosolwg o'r arian sydd ar gael o wahanol ffynonellau i grwpiau ac elusennau ar gyfer prosiectau ac achosion amgylcheddol.

*Mae'r cynnwys hwn er gwybodaeth yn unig. Os oes gennych bryderon cyfreithiol am glymog Japan, rydym yn argymhell eich bod yn gofyn am gyngor cyfreithiol penodol.*